



Ein cyf/Our ref JJ/01948/20

Datblygwyr sy'n gweithio yng Nghymru

23 Hydref 2020

## Llythyr agored i ddatblygwyr yng Nghymru

Rydym bob un yn ymwybodol o Drychineb Grenfell. Mae Adolygiad Hackitt a'r Ymchwiliad Cyhoeddus a'i dilynodd wedi bod yn ddeifiol eu beirniadaeth o'r system a'r prosesau a ganiataodd i gymaint o bobl farw mewn amgylchiadau trasig. Rwy'n ysgrifennu atoch fel datblygwyr i ofyn ichi ystyried eich cwrpawd moesol fel sefydliad.

Dylech deimlo'n saff gartref. Ar hyn o bryd, oherwydd pandemig y coronafeirws, dyna lle rydyn ni'n treulio mwy a mwy o'n hamser. Mae yna bobl ar draws Cymru, sy'n byw mewn adeiladau uchel iawn, nad oes ganddynt yr hyder a'r tawelwch meddwl bod eu cartref yn lle saff. Yn hytrach, maent yn poeni am ddiffygion posibl yr adeilad, sy'n golygu risgiau tân a risgiau iechyd a diogelwch mwy cyffredinol.

Yn foesol, nid wyf o'r farn mai cyfrifoldeb y rheini sy'n byw yn yr adeiladau hyn yw cywiro'r problemau. Mae pobl a brynodd eu heiddo mewn ffydd, gan gredu eu bod yn bodloni'r holl safonau diogelwch perthnasol, yn eu cael eu hunain yn wynebu costau ariannol sylweddol er mwyn cywiro diffygion na ddylai byth fod wedi bod yno.

Mae rhai datblygwyr eisoes wedi dangos y gallant wneud y peth iawn. Mae camau eisoes wedi'u cymryd, ac yn dal i gael eu cymryd, i gywiro cladin ACM nad yw'n cydymffurfio â'r safonau. Fodd bynnag, rwy'n siomedig bod yna ddiffygion pellach wedi'u canfod yn rhai o'r adeiladau hyn, yn ogystal â'r cladin, a bod y problemau hyn yn cael eu gadael i'r preswylwyr eu datrys. Credaf y dylai datblygwyr sydd yn amlwg wedi methu ag adeiladu i'r safonau gofynnol wynebu eu cyfrifoldeb a chywiro'r diffygion hyn. Heb esgus a heb oedi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn eich gwahodd i gwrdd â mi i amlinellu sut rydych yn mynd ati i ymgysylltu â'r rheini sy'n byw yn yr adeiladau dan sylw, sut rydych yn mynd ati i gywiro'r diffygion, a sut y byddwch yn sicrhau na fydd camgymeriadau o'r fath yn digwydd eto.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government